

Safonau hyfedredd ar gyfer cymwysterau ymarfer nyrsio cymunedol arbenigol

DRAFFT – 11 IONAWR 2021



Cynnwys

Cyflwyniad	2
Llwyfan 1: Bod yn weithiwr proffesiynol atebol ac annibynnol	8
Llwyfan 2: Hybu iechyd ac atal salwch	10
Llwyfan 3: Asesu galluedd ac anghenion pobl, a chynllunio gofal	12
Llwyfan 4: Darparu a gwerthuso gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth	14
Llwyfan 5: Arwain a rheoli timau	16
Llwyfan 6: Arwain gwelliannau mewn diogelwch ac ansawdd gofal	18
Llwyfan 7: Cydlynu gofal ac arweinyddiaeth systemau	20
Geirfa	22

Cyflwyniad

Yr hyn rydym yn ei wneud

Mae gofyniad ar y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (yr 'NMC') i bennu set o safonau hyfedredd, addysg a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol sydd am ymuno â'n cofrestrau am y tro cyntaf. Fel rhan o hynny rydym yn adolygu ein safonau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal i amddiffyn y cyhoedd; eu bod yn ateb y galw, a'u bod yn angenrheidiol i ddarparu gofal diogel, effeithiol a charedig. Pan fyddwn yn adolygu unrhyw rai o'n safonau, gan gynnwys safonau sy'n arwain at anodi, rydym yn ystyried tystiolaeth newydd, y newidiadau sy'n digwydd mewn cymdeithas a newidiadau i iechyd a gofal.

Addysg a hyfforddiant y tu hwnt i gofrestru cychwynnol

Yng ngwasanaethau iechyd a gofal iechyd heddiw, rydym yn cydnabod bod rolau nyrsys, bydwragedd a chymdeithion nyrsio'n newid ac yn ehangu, gan ofyn am lefelau uwch o annibyniaeth glinigol, gwybodaeth a sgiliau er mwyn cyflawni eu llawn botensial ac i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau er budd [pobl](#). Mae pawb ar ein cofrestr yn cael addysg a hyfforddiant ychwanegol ar ôl eu cofrestriad proffesiynol cychwynnol i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau ychwanegol.

Rydym yn mabwysiadu ymagwedd gymesur tuag at reoleiddio cymwysterau ôl-gofrestru, Rydym yn cyfyngu rheoleiddio i'r meysydd hynny lle mae angen sicrhau cysondeb mewn safonau hyfedredd, a safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, er mwyn cyflawni lefel uwch o ran ansawdd a diogelwch er mwyn lliniaru risg ac i roi sicrwydd i'r cyhoedd. Un o'r dulliau sydd gennym i gydnabod cymwysterau ôl-gofrestru yw drwy bennu safonau ar gyfer cymwysterau [ymarfer arbenigol](#) (SPQ).

Mae cymwysterau ymarfer arbenigol yn anodiadau ar ein cofrestr. Maent yn dangos bod nyrsys cofrestredig wedi cwblhau rhaglen SPQ sydd wedi'i chymeradwyo gan yr NMC yn llwyddiannus ac sy'n cyrraedd ein safonau mewn maes ymarfer penodol. I weithio tuag at gymhwyster ymarfer arbenigol, rhaid i chi fod yn nyrsys cofrestredig lefel gyntaf.

Nyrsio cymunedol yn yr 21^{ain} ganrif

Cafodd y cymwysterau ymarfer arbenigol presennol ar gyfer [nyrsio cymunedol](#) eu datblygu yn 1994 ar gyfer y rolau nyrsio cymunedol a fodolai ar y pryd: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anableddau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal a nyrsio practis cyffredinol.

Yn yr 21ain ganrif, mae gofal i bobl o bob oedran yn cael ei ddarparu fwyfwy yn y gymuned, yng nghartrefi pobl ac mewn lleoliadau yn agos at eu cartrefi. Mae'r lleoliadau hyn yn cynnwys cartrefi gofal, hosbisau, practisau meddygon teulu, lleoliadau preswyl ac addysgol, a charchardai a lleoliadau iechyd troseddwy. O ganlyniad mae modelau newydd o ofal cymunedol yn dod i'r amlwg, ac mae rolau nyrsio newydd yn datblygu sy'n ychwanegol at y rhai sydd â SPQ ar hyn o bryd. Nid yw meddu ar gymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol o anghenraid yn golygu y byddwch yn gallu gweithio yn y gymuned. Yn achos llawer o rolau a/neu fathau o weithgarwch nyrsio, mae cyfuniad o'r safonau ymddygiad proffesiynol sydd wedi'u hymgorffori yn y Cod, a'r gofyniad i gyflawni'r wybodaeth a'r sgiliau sydd wedi'u pennu yn y safonau hyfedredd nyrsio cyn-cofrestru, ynghyd ag ail-ddilysu dilynol a pharhaus, yn ddigon ar gyfer rheoleiddio effeithiol. Er mwyn cymryd ymagwedd gymesur, mae angen ystyried pa rolau a gweithgareddau sy'n cyfiawnhau rheoleiddio ar lefel ôl-gofrestru.

Diffinio ymarfer arbenigol

Cafodd ymarfer arbenigol ei ddiffinio gan yr UKCC, rhagflaenydd yr NMC, yn 1994 fel:

“the exercising of higher levels of judgement, discretion and decision making in clinical care.”

Dyma'r nodweddion sy'n cyfiawnhau rheoleiddio ymarfer arbenigol. Mae'r diffiniad hwn yn berthnasol o hyd yn y cyd-destun cyfredol ar gyfer y safonau hyfedredd drafft newydd sy'n cael eu cynnig ar gyfer yr SPQ cymunedol newydd. Mae'n cadarnhau'r gofyniad am safonau ôl-gofrestru rheoledig gan eu bod yn rhagori ar yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i fod ar y gofrestr fel nyrsys lefel gyntaf.

Ynglŷn â'r safonau drafft

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ein safonau hyfedredd cymwysterau ymarfer arbenigol drafft newydd sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer nyrsys cofrestredig sy'n gweithio yn y gymuned. Mae'r safonau hyfedredd drafft hyn yn adlewyrchu'r wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau sydd eu hangen ar nyrsys sy'n gweithio yn y gymuned mewn rolau sy'n cynnwys gwneud penderfyniadau'n annibynnol. Maent yn adlewyrchu sefyllfaoedd lle mae angen i nyrsys reoli cymhlethdodau a risgiau clinigol mwy, a hynny mewn timau o'r bobl maent yn gofalu amdanynt ac yn y gwasanaethau lle maent yn gweithio, sydd yn eu tro yn gallu integreiddio ag asiantaethau, gweithwyr proffesiynol a disgyblaethau eraill.

Mae'n debygol bod cysylltiad rhwng yr 'higher levels of judgement and decision making' a geir yn nisgrifiad yr UKCC yn 1994 a'r hyn sy'n awr yn cael ei alw'n 'ymarfer uwch'. Rydym wedi ymrwmo i ystyried a fydd angen rheoleiddio ymarfer uwch yn ystod y blynyddoedd nesaf. Byddwn yn gwybod mwy ar ôl inni gwblhau'r gwaith hwnnw. Fodd bynnag, mae'r SPQ cymunedol

newydd yn pennu safonau hyfedredd drafft a fydd yn helpu nyrsys cymunedol sy'n gweithio yn y gymuned i wella eu hymarfer clinigol, rheoli, ymchwil ac addysgiadol. Bydd hyn yn galluogi mwy o annibyniaeth glinigol, prosesau penderfynu annibynnol ac arweinyddiaeth mewn sefyllfaoedd cymhleth a risg uchel er budd pobl a gwasanaethau.

Fel y nodwyd, mae'r safonau drafft hyn yn ystyried y newid yng nghyd-destun nyrsio cymunedol. Maent yn cydnabod bod nyrsys cymunedol yn gweithio mewn amrywiaeth o rolau yn y gymuned, yn ychwanegol ar y pum rôl sydd ag SPQ eisoes, ac sy'n gofyn am lefelau uwch o annibyniaeth glinigol. Mae'n debygol y bydd mwy o rolau o'r fath yn cael eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r safonau hyn felly'n fodd i adeiladu ar arferion da presennol a bwriedir iddynt hybu dysgu a meithrin uchelgais a chyfluoedd i nyrsys cofrestredig eraill sy'n gweithio yn y gymuned. Dyna pam yr ydym yn cynnig cyflwyno SPQ newydd ar gyfer meysydd eraill ymarfer nyrsio cymunedol.

Natur safonau rheoleiddio

Bwriedir i lefel safonau rheoleiddio fod yn uchel a'u bod yn rhoi pwyslais ar ganlyniadau. Maent yn cael eu trosi gan sefydliadau addysg a'u partneriaid lleol ymarfer i gwricwla a deilliannau rhaglenni dysgu mwy manwl, a bydd y rhain yn benodol ar gyfer gwahanol arbenigeddau cymunedol.

Dylid felly darllen y safonau drafft hyn ochr yn ochr â Gwireddu proffesiynoldeb: Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant, sy'n amlinellu ein disgwyliadau o ran darparu'r holl raglenni addysg nyrsio a bydwreigiaeth cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru a gymeradwyir gan NMC. Mae'r safonau hyn yn gymwys yn achos pob darparwr addysg cymeradwy ac maent wedi'u rhannu'n dair rhan:

- [Rhan 1: Safonau addysg ar gyfer nyrsio a bydwreigiaeth](#)
- [Rhan 2: Safonau ar gyfer goruchwyllo ac asesu myfyrwyr](#)
- Rhan 3: Safonau rhaglenni, sy'n benodol i'r safonau ar gyfer pob rhaglen cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru.

Rhaid i sefydliadau addysg gyflawni ein safonau ar gyfer rhaglenni er mwyn cael eu cymeradwyo i gyflwyno rhaglen sy'n arwain at un o'n cymwysterau ymarfer arbenigol: nyrsio plant cymunedol, nyrsio anabledau dysgu cymunedol, nyrsio iechyd meddwl cymunedol, nyrsio ardal a nyrsio practis cyffredinol.

Y rhesymwaith ar gyfer yr anodi SPQ nyrsio cymunedol arbenigol newydd yw y gellir ei gymhwyso i wahanol rolau cymunedol, gan gynnwys rolau newydd posibl sy'n dod i'r amlwg yn y gymuned, lle mae angen i ymarferwyr feddu ar wybodaeth a sgiliau sydd wedi'u pennu yn y safonau er mwyn ymarfer â lefelau uwch o annibyniaeth glinigol ac i ddarparu gwasanaeth gwell i'r bobl yn eu gofal

Gyda'i gilydd mae'r safonau hyn yn ymdrechu i roi hyblygrwydd i sefydliadau addysg cymeradwy (AEI) a'u partneriaid dysgu ymarfer i ddatblygu dulliau arloesol mewn addysg, gan helpu nyrsys cofrestredig i gyflawni cymhwyster SPQ cymunedol, a hefyd i fod yn atebol i'r ddarpariaeth leol ac i reoli rhaglenni SPQ ôl-gofrestru cymeradwy yn unol â'n safonau. Dangosir y berthynas rhwng y safonau yn y diagram isod.

Safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant

Safonau hyfedredd ar gyfer proffesiynau nyrsio a bydwreigiaeth



Datblygu'r safonau drafft

Rydym wedi ymrwmo i ystyried ystod eang o safbwyntiau ac i [gyd-gynhyrchu'r](#) safonau hyn gyda'n rhanddeiliaid ym mhob un o bedair gwlad y DU. Roedd hyn yn golygu proses faith a thrylwyr o adolygu tystiolaeth ac ymgysylltu â phobl o bob rhan o'r DU, gan gynnwys y cyhoedd, nyrsys sydd mewn rolau ymarfer arbenigol yn y gymuned, cyflogwyr, myfyrwyr, addysgwyr, cydweithwyr rhyngddisgyblaethol, sefydliadau proffesiynol, ymchwilwyr, llunwyr polisi, ac elusennau a grwpiau eiriolaeth.

Maent yn adlewyrchu tystiolaeth ymarfer gorau mewn iechyd, llesiant, anghenion iechyd y gymuned, safbwyntiau a hoffterau pobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau ehangach. Mae'r safonau drafft hyn yn cyd-fynd â fframweithiau datblygiad proffesiynol presennol a

safbwyntiau polisi ym mhob un o bedair cenedl y DU (Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban). Rydym yn ddiolchgar i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser ac sydd wedi gweithio â ni ar y safonau drafft hyn.

Ar ddechrau'r broses, nid oeddem yn sylweddoli y byddem yn datblygu'r safonau yn ystod pandemig byd-eang na welwyd ei debyg o'r blaen, a sut y byddai hynny'n dylanwadu ar ffurf a chynnwys y safonau drafft. Mae'r pandemig yn parhau i effeithio ar bobl, cymunedau a phoblogaethau ledled y byd, Yn y DU, fel mewn gwledydd eraill, nid yw Covid-9 wedi effeithio ar bob grŵp poblogaeth i'r un graddau. Mae anghydraddoldebau sy'n cael eu hachosi gan benderfyniadau iechyd wedi cynyddu'r risg o ganlyniadau andwyol oherwydd Covid-19.

Mae'r pandemig hwn wedi amlygu a dwysau anghydraddoldeb sydd wedi bodoli ers amser ynghyd â chanlyniadau iechyd gwaeth i bobl o grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig yn y DU. Mae'n briodol felly bod astudiaethau cynnar a dysgu yn sgil y pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar ac wedi cyfrannu at y sail dystiolaeth a oedd yn llywio'r safonau hyn.

Gwnaed y safonau drafft hyn yn uchelgeisiol yn fwriadol ac maent yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau [Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant](#) (EDI) a gyhoeddwyd yn 2020. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i hyrwyddo diwylliant cyfiawn; herio gwahaniaethu yng ngwaith y sector iechyd a gofal ac amgylcheddau dysgu; helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd; gwella ein sail dystiolaeth EDI a chynyddu ein gwybodaeth; a hybu iechyd a llesiant gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol.

Strwythur y safonau drafft

Mae'r ymagwedd tuag at y safonau hyn yn cyd-fynd â [Nyrs y dyfodol](#), ein safonau hyfedredd nyrsio cyn-cofrestru newydd, a gyhoeddwyd yn 2018. Yn gyntaf, mae'n gwneud hyn o ran trefnu'r safonau yn saith llwyfan. Yn ail, cafodd y safonau nyrs y dyfodol eu datblygu i sicrhau bod nyrsys cofrestredig, ym mhob maes o ymarfer nyrsio, yn gallu diwallu'r holl anghenion gofal cyfannol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolion maent y byddant yn dod ar eu traws yn eu hymarfer ac a all fod ag ystod o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol neu ymddygiadol. Mae'r uchelgais hon yn gymwys hefyd yn achos nyrsio cymunedol arbenigol.

Y bwriad yw y bydd y safonau hyfedredd SPQ drafft yn adeiladu ar fframwaith safonau nyrsio'r dyfodol. Mae hyn yn cadarnhau'r ffaith bod gweithwyr proffesiynol ar ein cofrestr sy'n meddu ar gymhwyster cymunedol ôl-gofrestru eisoes yn meddu ar gyfoeth o wybodaeth a sgiliau sydd eu hangen i fod yn nyrsys cofrestredig, ond sydd hefyd â'r wybodaeth a'r sgiliau ychwanegol sydd eu hangen i gael y cymhwyster arbenigol.

Y saith llwyfan yw:

1. [Bod yn weithiwr proffesiynol atebol ac annibynnol](#)
2. [Hybu iechyd ac atal salwch](#)
3. [Asesu gallu ac anghenion pobl, a chynllunio gofal](#)
4. [Darparu a gwerthuso gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth](#)
5. [Arwain a rheoli timau](#)
6. [Arwain gwelliannu mewn diogelwch ac ansawdd gofal](#)
7. [Cydlynu gofal ac arweinyddiaeth systemau](#)

Bydd y safonau hyfedredd drafft hyn, a ddatblygwyd mewn rhaglen addysgol sydd wedi'i strwythuro'n briodol ac wedi'i theilwra i sicrhau eu deilliannau dysgu arbenigol, yn rhoi i nyrsys ôl-raddedig sy'n gweithio tuag at gymwysterau ymarfer arbenigol yr wybodaeth, y sgiliau, a'r ymddygiadau fydd eu hangen arnynt i weithio mewn ystod o rolau arbenigol yn y gymuned.

Fframwaith deddfwriaethol

Mae Erthygl 19(6) o Orchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 ('y Gorchymyn') yn galluogi'r NMC i sefydlu safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer unrhyw gymwysterau ychwanegol a all gael eu cofnodi ar y gofrestr. Bydd Erthyglau 15(3) i (9) ac erthyglau 16 i 18 o'r Gorchymyn yn gymwys yn achos y safonau hynny fel pe baent yn safonau a sefydlwyd o dan erthygl 15(1)(a). Mae hyn yn golygu y gall yr NMC sefydlu safonau addysg a hyfforddiant a gall gymeradwyo cwrs addysg neu gymhwyster sy'n gysylltiedig â chymwysterau ymarfer arbenigol.

Llwyfan 1: Bod yn weithiwr proffesiynol atebol ac annibynnol

Mae nyrsys cofrestredig yn gweithredu er budd pobl, gan eu rhoi yn gyntaf a darparu gofal nyrsio diogel a thrugarog, [sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#). Maent yn gweithredu'n broffesiynol bob amser ac yn atebol am eu gweithredoedd.

Mae disgwyl i nyrsys cymunedol â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol weithio'n annibynnol yng nghartrefi pobl, yn agos at gartref neu yn y gymuned, â phobl o bob oed. Maent yn gweithio mewn amgylchiadau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, ac maent yn gweithio gyda, ac yn dirprwyo i, dimau amrywiol sy'n gysylltiedig â darparu gofal, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol cofrestredig, gofaluwr di-dâl heb eu rheoleiddio, aelodau'r teulu, a gwirfoddolwyr ac eraill sy'n gweithio mewn mudiadau trydydd sector.

Maent yn gweithio mewn amgylcheddau a all fod yn rhai cymhleth dros ben, yn anghonfensiynol, dynamig a rhai anodd eu rhagweld, ac sydd o ganlyniad yn rhai risg uchel. Mae nyrsys cymunedol arbenigol yn arbenigwyr clinigol sy'n gallu gweithio'n annibynnol, gan ddefnyddio lefelau uwch o wybodaeth a sgiliau, dilyn prosesau penderfynu a chrebwyll proffesiynol arbenigol er mwyn gweithredu'n effeithiol fel gweithiwr proffesiynol annibynnol, atebol mewn amgylchedd o'r fath.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 1.1 ymarfer yn annibynnol, rhagweithiol ac arloesol, bod yn hunanymwybodol, yn emosiynol ddeallusol ac yn agored i newid
- 1.2 arwain a rheoli gwasanaeth, gyda'r gallu i dderbyn, rhyddhau ac atgyfeirio pobl yn effeithiol at weithwyr proffesiynol a gwasanaethau eraill fel sy'n briodol
- 1.3 bod yn esiampl wrth ddarparu [gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn](#) mewn amgylchiadau cymhleth, heriol na ellir eu rhagweld mewn ffordd ddyfeisgar, hyblyg a phroffesiynol
- 1.4 bod yn atebol am eu penderfyniadau, eu gweithredoedd a'u hanweithiau, gan gydnabod eu cymwyseddau personol eu hunain wrth weithio mewn amgylchiadau cymhleth, gyda risg, na ellir eu rhagweld a chyda gwybodaeth anghyflawn
- 1.5 deall yn feirniadol a chymhwyso gofynion cyfreithiol, rheoleiddiol a llywodraethu, polisiau, a fframweithiau proffesiynol a moesegol perthnasol ym mhob agwedd ar ymarfer cymunedol, gan wahaniaethu pan yn briodol rhwng deddfwrfeydd datganoledig y Deyrnas Unedig
- 1.6 arwain a hybu darpariaeth gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n atal gwahaniaethu, sy'n ddiwylliannol gymwys a chynhwysol

- 1.7 gweld yr angen am ac arwain ar gamau i sicrhau addasiadau rhesymol i bobl, grwpiau a chymunedau, drwy addasu eu hymarfer, hyrwyddo arferion gorau ymysg eraill a dylanwadu ar bolisi
- 1.8 creu a chynyddu cyfleoedd i bobl i barhau'n annibynnol ac i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau sy'n gysylltiedig â'u gofal
- 1.9 arddangos egwyddorion dewrder, tryloywder a dyletswyddau proffesiynol gonestrwydd, derbyn cyfrifoldeb i fynd i'r afael ag ymarfer gwael lle bynnag a pha bryd bynnag y deuir ar ei draws
- 1.10 myfyrio'n feirniadol a deall pa bryd y gall eu gwerthoedd a'u credoau personol effeithio ar eu hymddygiad a'u hymarfer
- 1.11 asesu cyfleoedd, risgiau a gofynion mewn ymarfer arbenigol, a chymryd camau i gynnal ei hiechyd a'u llesiant meddyliol a chorfforol eu hunain
- 1.12 cymhwyso'r sgiliau rhifedd, llythrennedd, digidol a thechnolegol uwch sydd eu hangen i ddiwallu anghenion pobl, eu teuluoedd a gofalwyr
- 1.13 arwain, hyrwyddo a dylanwadu ar y proffesiwn nyrsio mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach i gael effaith fesuradwy sy'n gwella gofal cymunedau drwy weithio mewn partneriaeth.

Llwyfan 2: Hybu iechyd ac atal salwch

RMae nyrsys cofrestredig gyda chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol yn allweddol i ddiogelu iechyd a hybu iechyd. Mae ganddynt rôl ganolog mewn [cyd-ddylunio](#) darpariaeth cymorth a gofal sy'n gwella iechyd a llesiant meddyliol, corfforol ac ymddygiadol y bobl, y cymunedau a'r poblogaethau a wasanaethir ganddynt.

Maent yn ymgysylltu'n effeithiol, yn gweithio â phobl gartref ac yn agos at gartref, i'w helpu i wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain a all wella eu hiechyd a'u gofal. Maent yn deall bod iechyd a mynediad at iechyd yn hawl dynol sylfaenol. Maent yn adnabod ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, maent yn adnabod asedau eu cymuned ac maent yn weithgar wrth hyrwyddo a chymryd rhan mewn rhaglenni ac ymyriadau iechyd cyhoeddus lleol a chenedlaethol.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 2.1 cymhwyso gwybodaeth uwch am epidemioleg, demograffeg a phenderfynyddion ehangach iechyd a salwch i ddeall patrymau iechyd a llesiant y gymuned a'r boblogaeth leol, gan weithredu i ddylanwadu ar bolisi
- 2.2 dadansoddi'n feirniadol y ffactorau a all arwain at anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd, eu dilemâu moesegol cysylltiedig, a byddant yn gallu cynllunio gofal mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd a chymunedau i wella canlyniadau iechyd
- 2.3 cydnabod iechyd fel hawl dynol sylfaenol a gwerthuso effeithiau dylanwadau cymdeithasol, llythrennedd iechyd, amgylchiadau unigol, ymddygiadau a ffyrdd o fyw ar sail gwybodaeth wrth alluogi pobl i gymryd camau i wella eu hiechyd meddyliol, corfforol ac ymddygiadol eu hunain
- 2.4 asesu anghenion iechyd yn feirniadol mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau, gan eu helpu i feddiannu eu gweithredoedd eu hunain a'r ymddygiad sydd ei angen ar gyfer newid ymddygiadol
- 2.5 ymgymryd ag asesiadau, sgrinio a phroffilio iechyd a gofal cymdeithasol â phobl a theuluoedd, a dehongli'r canlyniadau a chymryd camau priodol
- 2.6 dadansoddi ac asesu cymunedau'n feirniadol, eu hasedau ac unrhyw fylchau er mwyn ffurfio rhwydweithiau a chynghreiriau a all wella canlyniadau iechyd i bobl a theuluoedd
- 2.7 annog a helpu pobl, cymunedau a phoblogaethau i gysylltu'n effeithiol â mentrau, rhwydweithiau cymorth, rhaglenni a mudiadau trydydd sector lleol sy'n hybu eu hiechyd a'u llesiant

- 2.8 gwerthuso effaith rhwydweithiau i wella a helpu anghenion meddyliol a chorfforol pobl, teuluoedd a chymunedau, a rhoi sylw i unrhyw fylchau sy'n dod i'r amlwg
- 2.9 deall sut i gymhwyso genomeg ac epigenetieg yn ddigon manwl i helpu a chynghori pobl, teuluoedd a chymunedau ar y buddiannau posibl o ran eu gofal iechyd personol
- 2.10 cynyddu cyfleoedd i bobl, teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau i ddefnyddio eu cryfderau a'u hasedau eu hunain i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain
- 2.11 cymhwyso ystod o sgiliau cyfathrebu uwch i ddatblygu ac i wneud gwybodaeth iechyd cyhoeddus yn hygyrch er mwyn galluogi pobl i wneud eu dewisiadau eu hunain am eu hiechyd a'u llesiant ar sail gwybodaeth
- 2.12 cynllunio i ddiogelu iechyd pobl, teuluoedd a chymunedau drwy ddull seiliedig ar dystiolaeth i atal a rheoli heintiau, gan gynnwys stiwardiaeth gwyliaidwriaeth clefydau trosglwyddadwy a gwrthficrobaidd.

Llwyfan 3: Aseu galluedd ac anghenion pobl, a chynllunio gofal

Mae llawer o bobl sy'n cael gofal a chymorth gan nyrsys cymunedol arbenigol yn byw â chyflyrau tymor hir cymhleth a chydafiacheddau lluosog sy'n effeithio ar eu hiechyd meddyliol a chorfforol.

Mae gan nyrsys sydd â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol yr wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau i weithredu fel y gweithiwr proffesiynol arweiniol yn y gofal i'r bobl maent yn eu gwasanaethu. Maent yn hyfedr iawn yn y defnydd o ddull seiliedig ar dystiolaeth wrth gynnal asesiadau cyfannol o alluedd ac anghenion meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol, cymdeithasol ac ysbrydol pob unigolyn, gan roi sylw i'r cyd-destun cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach.

Maent yn datblygu perthnasoedd therapiwtig â phobl, eu teuluoedd a'u gofalywyr i hwyluso prosesau penderfynu a rennir ac maent yn cyd-gynhyrchu cynlluniau gofal sydd wedi'u personoli ar eu cyfer. Maent yn rhoi sylw i'r profiadau, galluedd, anghenion, hoffterau a heriau amrywiol mae pobl yn byw â hwy er mwyn gwneud yn siŵr bod modd cyflawni nodau'r cynlluniau a chyflawni canlyniadau positif i'r unigolyn.

Maent yn defnyddio eu crebwyll proffesiynol i gytuno ar a blaenoriaethu galluedd ac anghenion unigolyn wrth fabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth aseu a chynllunio gofal. Mae hyn yn cynnwys grymuso, hybu a chefnogi hunanofal.

Mi allant gynllunio i ddarparu gofal priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a gwneud neu dderbyn atgyfeiriadau at ac oddi wrth asiantaethau iechyd, gofal cymdeithasol a thrydydd sector eraill mewn partneriaeth â'r unigolyn sy'n cael gofal, a'u teuluoedd.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 3.1 creu a chymhwyso ymagwedd tuag at ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan hwyluso dull partneriaeth wrth aseu, prosesau penderfynu a rennir a chynllunio gofal pan fyddant yn gweithio â phobl, eu teuluoedd, cymunedau a phoblogaethau
- 3.2 adnabod ac aseu'r effaith ar, a'r rhyngweithio rhwng, hoffterau pobl, eu perthnasau agos a systemau cymorth, amgylchedd eu cartref, a dylanwad ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac ysbrydol wrth aseu galluedd, deall anghenion a chynllunio gofal ac ymyriadau triniaethau
- 3.3 cydnabod a chymhwyso'r [egwyddor o ragdybio galluedd](#) a gofyniad i gael cydsyniad ar sail gwybodaeth fel proses barhaus
- 3.4 gwneud addasiadau rhesymol i gynyddu cyfleoedd i bobl i gael eu cynnwys mewn [penderfyniadau](#) am eu harchwiliadau, eu triniaethau a'u gofal

- 3.5 gwneud [penderfyniadau er budd pennaf](#) o fewn y fframwaith deddfwriaethol gofynnol os, ar ôl ceisio cael cydsyniad ar sail gwybodaeth a gwneud addasiadau personol, yw eich crebwyll proffesiynol yn dod i'r casgliad nad oes gan unigolyn y galluedd i wneud penderfyniad penodol ar yr adeg honno
- 3.6 asesu a chynllunio gofal pobl pan fyddant yn agored i niwed, cytuno a oes angen cymorth ac os oes ar ba lefel, i sicrhau'r lefelau uchaf bosibl o annibyniaeth drwy gontinwrm gofal
- 3.7 sicrhau bod adrodd, cynllunio a chydlyn gofal yn flaenoriaeth i bobl sydd angen eu diogelu
- 3.8 dethol a defnyddio strategaethau cyfathrebu a sgiliau rheoli perthnasoedd priodol wrth ryngweithio â phobl, gan gynnwys teuluoedd a gofalwyr, sydd ag ystod o heriau iechyd meddyliol, corfforol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol, a rhai sydd wedi cyrraedd neu sy'n agos at ddiwedd bywyd
- 3.9 cynnal asesiad ar sail gwybodaeth ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn drwy gael a gwerthuso'n feirniadol ystod o ffynonellau gwybodaeth, gan ofyn am gyngor neu arweiniad ychwanegol pan fydd angen
- 3.10 dadansoddi'n feirniadol ddata asesu cymhleth, a gwahaniaethu rhwng canfyddiadau normal ac annormal, deall pa bryd mae angen gweithredu ar unwaith, gan gynnwys gofyn am archwiliadau ychwanegol a, phan yn briodol, uwchgyfeirio neu gynnwys eraill
- 3.11 cymhwyso rhesymu diagnostig yn feirniadol mewn penderfyniadau clinigol, gan ystyried gwahanol ddiagnosis a'r posibilrwydd bod y bydd problemau corfforol yn cael eu hesgeuluso ymhlith pobl â phroblemau meddyliol
- 3.12 manteisio ar y defnydd o dechnoleg a gwybodeg i gynnal asesiadau a diagnosis, ac i gyd-gynhyrchu cynlluniau gofal
- 3.13 deall a defnyddio datblygiadau newydd ac sy'n datblygu mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, gan gynnwys genomeg, i ategu a llywio penderfyniadau a wneir yn ystod asesiadau, ac i ffurfio opsiynau gofal a thriniaeth wedi'u personoli
- 3.14 cynyddu cyfleoedd i rannu prosesau penderfynu wrth ddatblygu cynlluniau gofal a chynllunio cynlluniau gofal sy'n ceisio rhagweld datblygiadau'r dyfodol drwy ddefnyddio ystod o sgiliau datrys problemau, dylanwadu a negodi
- 3.15 cyfleu'n effeithiol botensial gwahanol opsiynau gofal ac ansicrwydd i'r unigolyn a'u teulu neu ofalwyr a sut y cânt eu cefnogi mewn cynllun gofal y cytunir arno
- 3.16 mynd ati'n rhagweithiol i liniaru risgiau yn achos newid mewn amgylchiadau iechyd meddyliol a chorfforol unigolyn, eu hamgylchedd byw, eu trefniadau cymdeithasol, neu amodau perthnasol
- 3.17 gwneud penderfyniadau annibynnol mewn sefyllfaoedd heriol ac annisgwyl, a gallu cymryd camau priodol i asesu a rheoli risg.

Llwyfan 4: Darparu a gwerthuso gofal sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae nyrsgys cofrestredig sydd â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol yn arwain y gwaith o ddarparu ymyriadau, cymorth a gofal tosturiol a diogel sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mi allant gychwyn ystod o opsiynau gofal a thriniaeth, gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol ac annibynnol, a all fod yn gefnogol, gwellhaol, sy'n lleddfu symptomau neu sy'n lliniarol.

Mi allant ymgymryd ag ystod o ymyriadau'n annibynnol i roi sylw i effaith ffactorau meddyliol, corfforol, gwybyddol a chymdeithasol a rheoli cyfnodau cyfan o ofal.

Gallant gyfleu gwybodaeth gymhleth mewn ffordd sy'n helpu, yn eirioli ar ran, sy'n galluogi neu sy'n ceisio annog cynnwys pobl, eu teuluoedd pan yn briodol, i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u gofal a thriniaeth, gan ystyried y buddiannau a'r risgiau mwyaf tebygol.

Maent yn gweithio mewn partneriaeth â phobl, teuluoedd, gofalywyr, cyfoedion a chydweithwyr rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i asesu effaith gofal yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso canlyniadau'r gofal ac a yw'r driniaeth a'r gofal sy'n cael eu darparu'n parhau i fod yn effeithiol ac yn unol â dymuniadau, hoffterau a chanlyniadau dymunol yr unigolyn sy'n cael gofal, a all newid dros amser.

Maent yn sicrhau bod y gofal maent yn ei ddarparu neu'n ei ddirprwyo yn hyblyg, dynamig ac o safon uchel yn gyson.

Bydd nyrsgys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 4.1 rheoli cyfnodau cymhleth o ofal yn annibynnol o'r atgyfeiriad at y gwasanaeth a derbyn hyd ryddhau o lwyth achos neu atgyfeiriad at wasanaethau neu asiantaethau priodol eraill
- 4.2 cytuno â'r unigolyn, eu teulu neu ofalwyr pa bryd y gellir dirprwyo asesiadau, cynlluniau gofal a thriniaeth parhaus unigolyn yn ddiogel i unigolyn arall
- 4.3 adnabod llai o [gydgordio](#), newidiadau mewn cymhelliad neu anfodlonrwydd â gofal a chynllun triniaeth, a gweithio mewn partneriaeth â phobl i ddylanwadu ar a negodi unrhyw newidiadau i'r cynllun a'r gofal
- 4.4 ymgysylltu'n rhagweithiol, ac eiriol yn effeithiol ac mewn modd parchus ar ran pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol neu asiantaethau eraill i ganfod a rhoi sylw i unrhyw anghysondeb, anghytundeb neu wrthdaro
- 4.5 cychwyn ystod o ymyriadau gofal a thriniaeth seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys ymyriadau therapiwtig, rhagnodi cymdeithasol a gofal a all fod yn gefnogol, gwellhaol, sy'n lleddfu symptomau neu'n lliniarol

- 4.6 defnyddio rhagnodi annibynnol ac atodol (V300) effeithiol a gweinyddu meddyginiaethau, optimeiddio a chysoni meddyginiaethau
- 4.7 gwerthuso ac addasu cynlluniau i sicrhau cymorth sy'n diogelu pobl pan fyddant yn agored i niwed
- 4.8 gweithio â phobl, a phan yn briodol, â'u teuluoedd a'u gofalwyr i gytuno ar ac i ddarparu gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bobl sy'n marw neu sy'n agos at ddiwedd bywyd
- 4.9 bodloni hoffterau, credoau, gofynion diwylliannol a dymuniadau pobl sydd wedi marw a phobl mewn profedigaeth mewn ffordd sensitif
- 4.10 cynnal perthnasoedd proffesiynol therapiwtig â phobl, eu teuluoedd a'u gofalwyr drwy gydol y cyfnod gofal a thriniaeth, gan roi sylw i unrhyw anghytundebau a negodi i ganfod ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i bawb
- 4.11 gweithio mewn partneriaeth â phobl, eu teuluoedd, gofalwyr ac aelodau eraill o'r tîm i fonitro a gwerthuso'n barhaus ganlyniad y cynllun gofal a chytuno ar unrhyw newidiadau
- 4.12 cynnwys pobl a'u teuluoedd neu ofalwyr wrth wneud penderfyniadau am eu gofal neu amgylchiadau i reoli'n ddiogel risgiau newydd, rhai presennol neu rai sy'n dwysau
- 4.13 cofnodi'n fanwl ac egluro'n glir yn ysgrifenedig y rhesymau sydd wrth wraidd penderfyniadau, camau a gymerwyd a'r canlyniadau sy'n deillio ohonynt, neu drwy ddefnyddio technoleg ddigidol y gellir ei rhannu â'r unigolyn, eu teulu, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol eraill.

Llwyfan 5: Arwain a rheoli timau

Mae nyrsys cofrestredig â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol yn darparu ac yn arwain gwasanaethau mewn amrywiaeth o leoliadau cymunedol. Maent yn gweithredu fel esiampl o arferion gorau o ran darparu triniaethau clinigol, gofal nyrsio a chymdeithasol. Maent yn gyfrifol am arwain gwasanaethau a rheoli gofal i unigolion a grwpiau o bobl. Maent yn rhoi buddiannau pennaf, anghenion a hoffterau pobl yn gyntaf pan fyddant yn gweithredu i reoli risgiau sy'n gysylltiedig â darparu gofal.

Maent yn atebol am ddirprwyo gweithgarwch i aelodau'r tîm, gan gynnwys dirprwyo i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill a'r cydweithwyr hynny nad ydynt ar gofrestr broffesiynol, a gofalwyr.

Wrth arwain a rheoli tîm rhyngddisgyblaethol, mi allant gydweithio a chyfathrebu'n effeithiol â chydweithwyr. Maent yn gallu dylanwadu a meithrin perthnasoedd gweithio proffesiynol â disgyblaethau eraill a rhai sy'n gweithio mewn asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau effeithiol yn ddi-dor i bobl.

Maent yn gallu lleihau a datrys unrhyw anghytundeb neu wrthdaro rhwng y sawl sy'n darparu gofal, gan ddefnyddio sgiliau eiriolaeth a negodi i ganfod datrysiad sy'n dderbyniol i bawb.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 5.1 gwerthuso ystod o ddangosyddion i benderfynu ar y gymysgedd sgiliau a'r gweithlu sydd eu hangen i ddiwallu anghenion y gymuned leol
- 5.2 adolygu a rheoli'r bobl, y cyllid a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i ddiwallu gofynion y llwyth achosion yn ddiogel
- 5.3 canfod a chydweithio ag ystod o adnoddau cymunedol, gan gynnwys adnoddau cymorth y trydydd sector a sefydliadau ffydd
- 5.4 dadansoddi gofynion eu llwyth gwaith personol yn feirniadol a rhai'r tîm ehangach yn effeithiol a phriodol i roi blaenoriaeth i weithgareddau sy'n rheoli gallu a galluogrwydd
- 5.5 dirprwyo cyfrifoldebau'n ddiogel ac effeithiol i aelodau'r tîm ar ôl asesu lefel eu gwybodaeth, sgiliau a hyder
- 5.6 defnyddio technoleg ddigidol i gynyddu gweithio tîm rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol yn effeithiol
- 5.7 llunio dadleuon cryf a chyfleu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol i gyfiawnhau penderfyniadau anodd ynglŷn â dyrannu adnoddau

- 5.8 gwybod sut i ddirprwyo cyfrifoldeb yn effeithiol i aelodau'r tîm i reoli cyllideb, pobl ac adnoddau eraill, gan gadw atebolrwydd
- 5.9 caffael cyfarpar ac eitemau untro yn unol â pholisïau caffael perthnasol, ystyriaethau gwerth am arian a gofynion iechyd a diogelwch
- 5.10 cyfleu rhesymau eglur a seiliedig ar dystiolaeth dros benderfyniadau cymhleth wrth arwain timau mewn sefyllfaoedd anodd
- 5.11 myfyrio'n barhaus ar eu dull arwain eu hunain yn barhaus a gweithredu i addasu eu harddull arwain ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, er enghraifft, wrth weithio â thimau amrywiol a all fod yn wasgaredig o ran daearyddiaeth
- 5.12 defnyddio systemau'n effeithiol i fesur effaith, ansawdd, cynhyrchiant a chost effeithiolrwydd timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol i allu rheoli perfformiad timau'n effeithiol, gan gydnabod os oes bylchau neu os bydd angen gwelliannau mewn gwybodaeth
- 5.13 cynnal trafodaethau proffesiynol ag aelodau'r tîm i roi cyfle am gadarnhad a heriau positif, a chytuno ar unrhyw gynlluniau datblygu neu gamau cywirol yn unol â phrosesau arfarnu
- 5.14 defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i addysgu, cynorthwyo ac ysgogi pobl, rheoli talentau a chynllunio ar gyfer olyniaeth
- 5.15 cydnabod galluedd ac anghenion dysgu unigol wrth gymhwysu'r [safonau addysg a hyfforddiant cyn-cofrestru ac ôl-gofrestru](#) myfyrwyr nyrsio, bydwreigiaeth a chymdeithion nyrsio, er mwyn addysgu, [goruchwyllo ac asesu'n effeithiol](#)
- 5.16 cymhwyso ystod o strategaethau sy'n effeithiol i hybu datblygiad a chydlyniant positif timau rhwng disgyblaethau ac asiantaethau
- 5.17 dethol a gweithredu strategaethau sy'n briodol i gyfansoddiad y tîm, i alluogi goruchwyllo, myfyrio ac adolygu gan gymheiriaid, a gwerthuso eu haddasrwydd, eu heffaith a chynaliadwyedd.

Llwyfan 6: Arwain gwelliannau mewn diogelwch ac ansawdd gofal

Mae nyrsys cofrestredig â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol yn datblygu ac yn arwain drwy weithredu strategaethau i wella gofal, triniaeth a gwasanaethau ac i wella canlyniadau iechyd a phrofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Maent yn hyfedr mewn gwella ansawdd a methodolegau ymchwil.

Maent yn gallu manteisio ar eu gwybodaeth arbenigol, eu sgiliau a'u profiad, ac i reoli'n ddiogel yr ystod o risgiau, cwynion a phryderon sy'n gysylltiedig â darparu gofal mewn lleoliadau cymunedol amrywiol. Mi allant drosi canlyniadau gweithgareddau rheoli risgiau yn wersi a ddysgwyd ac arferion gweithredol gwell.

Mi allant eiriol ar ran ac arwain mentrau gwella ansawdd seiliedig ar dystiolaeth a dylanwadu ar benderfyniadau ar draws y tîm rhyngddisgyblaethol ac mewn lleoliadau rhyngasiantaethol.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 6.1 dehongli deddfwriaeth a rheoliadau iechyd a diogelwch er mwyn datblygu polisiau a chanllawiau lleol i helpu staff sy'n gweithio yn yr holl leoliadau cartref a chymunedol
- 6.2 gwerthuso allbynnau ac argymhellion adrodd risg mewnol ac allanol i allu blaenoriaethu, gwneud penderfyniadau a datblygu cynlluniau gweithredu i liniaru risg
- 6.3 defnyddio'r crebwyll proffesiynol, yr wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i sicrhau cydbwysedd rhwng risgiau a blaenoriaethau sy'n cystadlu, gan sicrhau bod camau i leihau risgiau diogelwch yn parhau i ganolbwyntio ar yr unigolyn a heb fod yn fwy cyfyngol na sy'n rhaid
- 6.4 cyd-gynhyrchu strategaethau a chynlluniau i ddylunio gwasanaethau â phobl, teuluoedd a chymunedau i wella canlyniadau gofal
- 6.5 gwneud defnydd effeithiol o dechnoleg arloesol ac sy'n datblygu i gasglu, storio, dadansoddi a rhagfynegi data a gwybodaeth yn y ffordd fwyaf effeithlon i helpu i ddatblygu cynlluniau sy'n gwella canlyniadau diogelwch ac ansawdd
- 6.6 gwerthuso profiadau pobl o ddilyniant mewn gofal i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir
- 6.7 gwerthuso gwahanol ddyluniadau a methodolegau ymchwil a sut maent yn cael eu cymhwyso i roi sylw i gwestiynau ymchwil ac i gynhyrchu dystiolaeth i wella gwasanaethau

- 6.8 arwain rhaglen gwella ansawdd barhaus o'i dechrau i'w diwedd, gan ddewis methodoleg briodol, coladu a chyflwyno'r canlyniadau, a chynllunio unrhyw gamau gwella
- 6.9 arfarnu'n feirniadol ganlyniadau gwerthusiadau gwasanaeth, ymchwil ac archwiliadau a gyhoeddwyd, a chrynhoi dysgu perthnasol y gellir ei gymhwyso'n ymarferol i wella gwasanaethau
- 6.10 cyflwyno canfyddiadau ymchwil perthnasol a chynigion cysylltiedig i wella gofal i ystod o gynulleidfaoedd.

Llwyfan 7: Cydlynu gofal ac arweinyddiaeth systemau

Mae gan nyrsys cofrestredig â chymhwyster ymarfer arbenigol cymunedol ddealltwriaeth feirniadol o bolisïau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd perthnasol a sut maent yn effeithio ar y gymuned ehangach, ac o benderfynyddion ehangach iechyd ac anghydraddoldebau iechyd.

Mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o swyddogaethau ystod eang o asiantaethau gwahanol yn y gymuned sy'n cael effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol ar iechyd a llesiant. Mae ganddynt wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o'u hysgogwyr gwleidyddol ac economaidd, y cyfyngiadau a'r risgiau, sy'n eu galluogi i feithrin perthnasoedd gweithio llwyddiannus er budd pobl a chymunedau.

Mi allant ddylunio a darparu model effeithiol o wasanaethau nyrsio cymunedol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sydd wedi'u hintegreiddio o fewn, ac sy'n cynyddu cyfraniad, asiantaethau a gwasanaethau eraill. Mae ganddynt yr wybodaeth, y sgiliau a'r priodoleddau i ddylanwadu ar ac i gydweithio ag asiantaethau eraill i gyflwyno newid cydlynus, cynhyrchiol ac sy'n gynaliadwy yn y cyd-destun hwn.

Maent yn gallu defnyddio eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u profiad i ddylanwadu ac i gyflawni newid sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol er budd pobl a chymunedau.

Bydd nyrsys cofrestredig â'r cymhwyster hwn yn gallu:

- 7.1 dadansoddi'n feirniadol y polisiau a'r ysgogwyr polisi gwleidyddol ac economaidd a all gael effaith ar iechyd, gofal a llesiant cymunedau lleol
- 7.2 cymhwyso egwyddorion economeg iechyd a gofal cymdeithasol a'u perthnasedd i ddyraniadau adnoddau mewn gwasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol integredig
- 7.3 cyfuno tueddiadau epidemiolegol, demograffig, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd i ragweld eu heffaith a'u dylanwad ar wasanaethau nyrsio cymunedol y presennol a'r dyfodol
- 7.4 cynyddu cydweithio a chyd-ddylunio effeithiol rhwng timau rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol, drwy werthuso rolau a chyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n darparu gofal iechyd a chymdeithasol integredig
- 7.5 cymhwyso ystod o fethodolegau gwella i hybu gwelliant parhaus i wasanaethau o fewn y gwasanaethau a ddarperir gan amrywiaeth o wahanol sefydliadau ac asiantaethau

- 7.6 arwain yn rhagweithiol y gwaith o greu a datblygu rhwydweithiau effeithiol sy'n gwella cyfathrebu a phrosesau penderfynu rhwng sefydliadau ac asiantaethau
- 7.7 mabwysiadu safbwynt gwrth-wahaniaethol ac arwain ar gamau i herio ac atal ymddygiad gwahaniaethol ar lefel system
- 7.8 dylanwadu ar ddatblygiad a gweithredu strategaethau a pholisïau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.

Geirfa

Agored i niwed: pobl a all fod yn agored i niwed ar adeg benodol, oherwydd neu nodwedd(ion) personol, sefyllfa(oedd) neu esgeulustod, ac sydd felly mewn mwy o berygl o niwed posibl neu wirioneddol, Gall y math o niwed fod yn emosiynol, corfforol, rhywiol, seicolegol, materol neu ariannol.

Archwiliad: asesiad meddyliol a chorfforol a gynhelir gyda chydysniad yr unigolyn sy'n cael gofal.

Cyd-ddylunio: partneriaeth rhwng cynrychiolydd unigolyn neu grwpiau o bobl sy'n dod at ei gilydd i ddylunio llwybrau gofal, i ddatblygu llwybrau newydd a diwygio modelau gwasanaeth presennol.

Cydgordio: cytundeb a wneir ar ôl negodi rhwng unigolyn sy'n cael gofal a gweithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n parchu credoau a dymuniadau'r unigolyn, er enghraifft, wrth benderfynu a yw'r cynllun gofal yn cael ei weithredu'n unol â'r hyn y cytunwyd arno a sut mae meddyginiaethau'n cael eu cymryd.

Cyd-gynhyrchu: dull partneriaeth sy'n dod â phobl at ei gilydd i ddod o hyd i ddatrysiadau a rennir ac sy'n cynnwys partneriaeth â phobl o ddechrau i ddiwedd unrhyw gynllun neu newid sy'n effeithio arnynt.

Cymhwysedd diwylliannol: y gallu i ddangos gwybodaeth, agwedd, sgiliau ac ymddygiad sy'n dangos parch ac sy'n ymateb i anghenion diwylliannol ac ieithyddol poblogaeth amrywiol.

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn sy'n seiliedig ar dystiolaeth: gofal sy'n adlewyrchu tystiolaeth gyfoes yn y maes, sy'n gwneud yn siŵr ei fod yn ystyried galluoedd personol, anghenion a hoffterau'r unigolyn. Mae hefyd yn cynnwys y nyrs sy'n dod i gasgliad personol yn seiliedig ar brofiad, arsylwadau a galluoedd, anghenion a hoffterau'r unigolyn pan fydd tystiolaeth yn brin.

Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: mae canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu bod gofal yn canolbwyntio ar alluoedd ac anghenion yr unigolyn, gan sicrhau bod hoffterau, anghenion a gwerthoedd pobl yn sail i benderfyniadau clinigol, ac y darperir gofal sy'n eu parchu ac sy'n ymateb iddynt.

Nyrsio cymunedol: gofal a ddarperir gan nyrsys y tu allan i leoliad ffisegol amgylchedd ysbyty fel gofal a ddarperir lle mae pobl yn byw, yn y cartref neu'n agos at y cartref, gofal preswyl, gofal mewn lleoliadau addysgol, gofal sylfaenol, clinigau cymunedol, canolfannau allgymorth, carchardai a lleoliadau neu sefydliadau cymunedol eraill.

Penderfyniad er budd pennaf: penderfyniad a wneir ar gyfer ac ar ran unigolyn sydd wedi'i asesu fel bod heb alluedd i wneud eu penderfyniad ar eu rhan eu hunain. Dyma un o'r egwyddorion allweddol sy'n sail i'r ddeddfwriaeth galluedd meddyliol ledled y Deyrnas Unedig.

Pobl: unigolion neu grwpiau o bobl sy'n cael gwasanaethau gan nyrsys, bydwragedd, cymdeithion nyrsio, pobl iach a sâl, rhieni, plant, teuluoedd, gofalwyr, cynrychiolwyr, ac sydd hefyd yn cynnwys addysgwyr a myfyrwyr ac eraill o fewn a'r tu allan i'r amgylchedd dysgu.

Ymarfer arbenigol: mae'n rhagori ar safonau hyfedredd nyrsio cyn-cofrestru o ran meysydd fel asesu, diagnosis, gwneud penderfyniadau, cynllunio gofal, cydlynu gofal a darparu gofal sy'n benodol i unigolyn, cyd-destun, lleoliad neu grŵp cleientiaid penodol.

Yr egwyddor o ragdybio galluedd: un o'r pum egwyddor o dan ddeddfwriaeth galluedd meddyliol y Deyrnas Unedig. Dywed yr egwyddor fod gan bob oedolyn yr hawl i wneud eu penderfyniadau eu hunain a rhaid tybio bod ganddynt y galluedd i wneud hynny oni bai y gellir profi i'r gwrthwyneb. Mae hyn yn golygu na allwn gymryd yn ganiataol na all rhywun wneud penderfyniad drostynt eu hunain am fod ganddynt gyflwr meddygol neu anabledd penodol.



Rôl y Cyngor Nyrso a Bydwreigiaeth

Yr hyn rydym ni'n ei wneud

Ein gweledigaeth yw nyrso a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr proffesiynol bron i 725,000 o weithwyr nyrso a bydwreigiaeth proffesiynol, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae i wireddu hyn.

Rheoleiddio yw ein rôl graidd. Yn gyntaf, rydyn ni'n hyrwyddo safonau proffesiynol uchel ar gyfer nyrso a bydwreigiaeth ledled y DU, a chymdeithion nyrso yn Lloegr. Yn ail, rydyn ni'n cadw cofrestr o weithwyr proffesiynol sy'n gymwys i ymarfer. Yn drydydd, byddwn yn ymchwilio pan fydd gofal nyrso neu ofal bydwreigiaeth yn mynd o chwith – rhywbeth sy'n effeithio ar lai nag un y cant o weithwyr proffesiynol bob blwyddyn.

I reoleiddio'n dda, rydym yn cefnogi ein proffesiynau a'r cyhoedd. Rydyn ni'n creu adnoddau a chanllawiau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfa pobl, gan eu helpu i gyflawni ein safonau wrth weithio a mynd i'r afael â heriau newydd. Rydyn ni hefyd yn cefnogi pobl sy'n rhan o'n hymchwiliadau, ac rydyn ni'n gwneud ein hunain yn fwy amlwg er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu cynnwys a'u grymuso i lywio ein gwaith.

Mae rheoleiddio a chefnogi ein proffesiynau yn caniatáu i ni ddylanwadu ar iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n rhannu gwybodaeth o'n gweithgareddau rheoleiddio ac yn gweithio gyda'n partneriaid i gefnogi'r gwaith o gynllunio'r gweithlu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector. Rydyn ni'n defnyddio ein llais i siarad o blaid amgylchedd gwaith iach a chynhwysol i'n proffesiynau.

Cymeradwywyd y safonau hyn gan y Cyngor yn eu cyfarfod ar (DATE TBC).